OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 686 (Cy.94)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012

Gwnaed - - - -	*6 Mawrth 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*27 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 87, 105(2) a 106(1)(b) a (c) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt(**2**):

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012, a daw i rym ar 27 Mawrth 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Newid blwyddyn etholiadau cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn

2.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i etholiad cyffredin cynghorwyr i Gyngor Sir Ynys Môn.

(2) Bydd etholiadau a fuasai, oni bai am y Gorchymyn hwn, wedi eu cynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr(**3**) yn 2012 ac ym mhob pedwaredd flwyddyn wedi 2012(**4**) yn cael eu cynnal yn lle hynny ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2013 ac ym mhob pedwaredd flwyddyn wedi 2013.

(**1**) 2000 p.22.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**3**) Am ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr ardaloedd llywodraeth leol, gweler adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p.2), fel y'i diwygiwyd gan adran 18 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p.50), paragraffau 1 a 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29), ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

(**4**) Am y flwyddyn y buasai etholiadau cyffredin wedi eu cynnal fel arall, gweler adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) mewn perthynas â chynghorwyr prif gynghorau.